



Awdurdodau Cynllunio Lleol – Penaethiaid Cynllunio
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

11 Tachwedd 2024

Annwyl gyfaill

Cyflwyno ffurflenni cais cynllunio a chydsyniadau cysylltiedig yn ddigidol

1. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cyflogi contractwr i ddarparu un pwynt mynediad digidol ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru, drwy wefan “Ceisiadau Cynllunio Cymru” - <https://www.llyw.cymru/cyflwyno-cais-am-ganiatad-cynllunio>.
2. Mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio a chydsyniadau cysylltiedig i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), yn ogystal â sicrhau bod dogfennau ac adroddiadau ategol yn gallu cael eu cyflwyno, drwy un ffurflen ddeinamig. Caiff data eu trosglwyddo'n uniongyrchol i systemau TGCh ACLLau.
3. Mae Ceisiadau Cynllunio Cymru yn olynydd uniongyrchol i'r Porth Cynllunio, ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Cymru. Cafodd y “Porth Cynllunio” ei lansio gan Lywodraeth y DU yn 2002 a gwnaethant ddewis ei symud i'r sector preifat yn 2015. Ar adeg y preifateiddio, daeth Gweinidogion Cymru i'r casgliad nad oedd y referniw a godwyd yng Nghymru o weithgareddau masnachol o'r fath yn debygol o wneud y gwasanaeth yn fasnachol hyfyw, yn enwedig mewn perthynas â'r angen am ddarpariaeth Gymraeg. Dewisodd Gweinidogion Cymru gynnal cyllid cyhoeddus i sicrhau bod gwasanaethau i ACLLau Cymru yn parhau yn y ddwy iaith. Ers hynny, mae'r gwasanaeth wedi parhau i gael ei ariannu'n llawn ar gost gyhoeddus, a bydd y contract ar gyfer y gwasanaeth hwn yn dod i ben ar 29 Mawrth 2025.
4. PortalPlanQuest Ltd (PPQ) yw'r cwmni a ffurfiwyd o staff a drosglwyddwyd o'r Porth Cynllunio o Lywodraeth y DU i'r sector preifat yn 2015. Mae'n weithredwr y gwasanaeth “Planning Portal” masnachol yn Lloegr, ac mae hefyd yn contractwr ar gyfer gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio Cymru. Mae PPQ wedi mynegi awydd i ymestyn ei wasanaeth masnachol i gwmpasu Cymru ar ôl i gytundeb Ceisiadau Cynllunio Cymru ddod i ben. Byddai hyn yn golygu bod gwasanaethau y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu disgwyl yn gallu cael eu darparu, heb unrhyw gost gyhoeddus.
5. **Yn dilyn trafodaethau adeiladol gyda PPQ, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio wedi cytuno i drosglwyddiad wedi'i reoli o wasanaethau ceisiadau cynllunio electronig i PPQ ar sail fasnachol.** Mae hyn yn golygu, o 30 Mawrth 2025 ymlaen, na fydd Llywodraeth Cymru bellach yn ariannu nac yn rheoli'r gwaith o ddarparu ceisiadau cynllunio ar-lein a

chydysniadau cysylltiedig. Bydd y rhain yn cael eu cynnig gan gwmni preifat yn lle hynny, fel sydd eisoes yn wir am geisiadau o'r fath yn Lloegr.

6. Er mwyn adlewyrchu natur fasnachol y gwasanaeth, mae PPQ yn cynnig datblygu "blaen siop" newydd, gan gynnwys cyfeiriad gwe, sydd eto i'w gadarnhau. Fodd bynnag, bydd y dechnoleg sy'n cefnogi'r gwasanaeth yn aros yr un fath i raddau helaeth ac ychydig o gamau, os o gwbl, y bydd angen i ACLlau eu cymryd i ymateb i drosglwyddo'r swyddogaeth.
7. Ers masnacheiddio yn Lloegr, mae PPQ wedi parhau i ddarparu'r gallu i geisiadau cynllunio gael eu gwneud yn uniongyrchol i ACLlau drwy ei wasanaeth. Mae'n cynnig rhai gweithgareddau masnachol dewisol i ddefnyddwyr gwasanaeth, megis gwasanaethau trafodiadau ariannol, ac mae'n ceisio ymestyn ei wasanaeth trafodiadau ariannol i Gymru, er mwyn galluogi talu ffioedd ymgeisio ar ran ACLlau. Bydd y gwasanaeth yn parhau i alluogi ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau i ACLlau yn rhad ac am ddim, ac i dalu'r ffioedd ACLI ar wahân, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer y Porth Cynllunio yn Lloegr.

Deddfwriaeth

8. Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am gyhoeddi ffurflenni ar gyfer gwneud cais am ganiatâd cynllunio a chydysniadau eraill, fel y nodir yn yr eitemau canlynol o ddeddfwriaeth:
 - (a) Adran 62 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; a
 - (b) Erthyglau 4, 5, 11, 28, a 28A o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwahanol fathau o geisiadau "gael eu gwneud i'r awdurdod cynllunio lleol mewn ysgrifen ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (neu ffurflen sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith)".
9. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi ffurflenni cais cynllunio a ffurflenni ar gyfer cydsyniadau cysylltiedig, ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn galluogi PPQ, ac unrhyw ddarparwr arall sy'n dymuno gwneud hynny, i sicrhau bod y ffurflenni mae'n eu cynnig yn "sylweddol gyffelyb o ran eu heffaith".

Camau gweithredu sydd eu hangen gan Awdurdodau Cynllunio Lleol

10. Ar hyn o bryd, nid oes angen camau gweithredu gan ACLlau. Bydd y gwasanaeth ymgeisio newydd yr un gwasanaeth ag y cawsoch erioed, o dan berchnogaeth newydd.
11. Bydd PPQ yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfeiriad gwe'r gwasanaeth newydd, a bydd angen i ACLlau gyfeirio ymgeiswyr ato o 29 Mawrth ymlaen. Byddwn yn cyfathrebu ymhellach ar hyn wrth i ni nesáu at ddiwedd y contract presennol.
12. Bydd angen i'r ACLlau hynny sy'n defnyddio proffiliau corfforaethol ar Geisiadau Cynllunio Cymru, er enghraifft i reoli gofynion gwybodaeth ategol ychwanegol ar

gyfer mathau penodol o geisiadau, gytuno i drosglwyddo eu cyfrif i'r gwasanaeth newydd.

13. Dylai ACLIau fod yn ymwybodol mai'r ffurflenni a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru yw'r ffurflenni "swyddogol", a dylid derbyn a phrosesu ceisiadau arnynt yn y ffordd arferol.

Camau gweithredu sydd eu hangen gan ddefnyddwyr gwasanaeth (ymgeiswyr ac asiantau)

14. Dylai defnyddwyr gwasanaeth rag-weld gohebiaeth yn y dyfodol gan PPQ, a Llywodraeth Cymru, ynghylch mynediad i'r gwasanaeth newydd o fis Mawrth 2025. Bydd PPQ yn anfon e-bost at ddefnyddwyr gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio Cymru yn uniongyrchol gyda gwybodaeth am y newidiadau sydd ar y gweill.
15. Yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer gwybodaeth bersonol sy'n cael ei storio ar wasanaeth Ceisiadau Cynllunio Cymru, a PPQ yw'r prosesydd data. Rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn am gydsyniad gan destun y data i drosglwyddo eu gwybodaeth i reolydd newydd, hyd yn oed os mai'r rheolydd newydd yw'r prosesydd data eisoes.
16. Bydd PPQ yn cyfathrebu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth presennol yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, gan eu gwahodd i drosglwyddo eu cyfrif i'r gwasanaeth newydd. Dylai'r defnyddwyr gwasanaeth hynny sy'n dewis optio i mewn i'r trosglwyddiad hwn brofi trosglwyddiad di-dor i'r gwasanaeth newydd.
17. Gan na fydd PPQ bellach yn prosesu data ar ran Gweinidogion Cymru, ni fydd ganddo awdurdod bellach i gadw na phrosesu cofnodion ar ôl diwedd y contract. O ganlyniad, bydd data'r rhai nad ydynt, gan gynnwys ceisiadau cynllunio drafft a gwybodaeth ategol, **yn cael eu dileu ar adeg diwedd y contract**. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cadw mynediad at geisiadau drafft gytuno i'r trosglwyddiad i'r gwasanaeth newydd.
18. Cyfrifoldeb yr ACLI perthnasol yw'r cyfrifoldeb dros gyhoeddi a chadw ceisiadau sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r ACLI perthnasol, ac ni fydd y newid o ran perchnogaeth y gwasanaeth yn effeithio ar hyn.

Camau gweithredu pellach gan Lywodraeth Cymru

19. Bydd Llywodraeth Cymru a PPQ yn ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid yn uniongyrchol, a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drosglwyddo swyddogaeth. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol a phroffesiynol.
20. Mae swyddogion wrthi'n datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda PPQ i sicrhau y bydd cyswllt adeiladol a blaengar rhwng y ddau barti yn parhau wrth i'r cyfrifoldeb dros ddarparu ffurflenni cais electronig Cymru symud i'r sector preifat.

Byddai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn sail gyffredin ar gyfer gweithio gydag unrhyw barti arall â diddordeb, pe bai un yn codi.

21. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhybudd amserol ymlaen llaw i PPQ (ac unrhyw gystadleuydd) am newidiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi a fyddai'n golygu bod angen newid ffurflenni cais neu weithdrefnau. Yn gyfnewid am hyn, bydd PPQ yn darparu dadansoddiadau gwybodaeth i Lywodraeth Cymru, mewn perthynas â niferoedd a mathau o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i ACLlau yng Nghymru.

Crynodeb

22. Bydd trosglwyddo'r gwasanaeth ceisiadau cynllunio ar-lein i'r sector preifat yn galluogi ei weithredwyr i ddarparu rhai gweithgareddau masnachol y mae galw amdanynt yn Lloegr, ac na ellir eu cynnig ar wasanaeth a ariennir gan y wladwriaeth. Ym mhob ffordd arall, bydd y gwasanaeth yr un gwasanaeth wedi'i ddarparu gan yr un partneriaid ag o'r blaen.
23. Cewch fwy o wybodaeth am drosglwyddo'r gwasanaeth newydd drwy gysylltu â:


Llywodraeth Cymru

Kris Hawkins
Uwch-reolwr Penderfyniadau
Y Gangen Gwaith Achos Cynllunio
Llywodraeth Cymru
Kris.hawkins@llyw.cymru

PortalPlanQuest Ltd

Phil Theobald
Pennaeth Gweithrediadau
Y Porth Cynllunio
Phil.Theobald@planningportal.co.uk

Yn gywir



Neil Hemington
Y Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Chief Planner, Planning Directorate